Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad ar

Ysgol Y Rhos

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Y Rhos

Enw'r darparwr	Ysgol Y Rhos
Statws y perchennog	Unique Care Homes Ltd., cwmni preifat cyfyngedig
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Annibynnol
Darpariaeth breswyl?	Oes
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	14
Disgyblion o oed ysgol statudol	14
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	{Dyddiad yr Arolygiad Blaenorol}
Dyddiad dechrau'r arolygiad	16/09/2026

Cyd-destun yr ysgol

Mae Ysgol y Rhos wedi ei lleoli mewn ardal wledig rhwng Wrecsam a'r Wyddgrug, o fewn campws addysgol bach sy'n cynnwys sawl adeilad wedi eu hadeiladu'n bwrpasol sydd wedi eu lleoli ar dir helaeth. Mae'r perchennog, sef Unique Care Homes Ltd., yn gwmni preifat cyfyngedig sydd hefyd yn gweithredu pum cartref plant ar draws Wrecsam a Sir Ddinbych.

Mae'r ysgol wedi ei chofrestru ar gyfer hyd at 24 disgybl rhwng 8 ac 16 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae llawer o ddisgyblion wedi profi tarfu ar eu haddysg, gan gynnwys methiannau lleoliadau a chyfnodau o gael eu gwahardd o leoliadau prif ffrwd.

Mae 14 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, ar hyn o bryd. Mae mwyafrif y plant yn cael eu gosod gan awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys Ynys Môn, Caerfyrddin, Abertawe a Gwynedd. Caiff lleiafrif o blant eu gosod gan awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae gan bob disgybl gynllun datblygu unigol (CDU) neu gyfwerth.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Hydref 2025. Fe'i cynorthwyir gan bedwar o athrawon amser llawn, parhaol a chymwys, tri chynorthwyydd addysgu ac arweinydd bugeiliol.

Argymhellion blaenorol

A1 Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Sicrhau bod gwybodaeth am asesu, ymddygiad a phresenoldeb yn cael ei defnyddio'n systematig i roi darlun clir o'r cynnydd a wna disgyblion dros gyfnod

A3 Gwella gweithdrefnau ar gyfer sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant i ganolbwyntio ar gynnydd disgyblion a'r safonau maent yn eu cyflawni

A4 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, addysg rhyw a pherthnasoedd a gyrfaoedd

Crynodeb

Mae Ysgol y Rhos yn darparu amgylchedd digynnwrf a chefnogol. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn defnyddio'u dealltwriaeth o anghenion a phrofiadau unigol disgyblion i gefnogi eu dysgu. Mae perthnasoedd cadarnhaol yn helpu disgyblion i deimlo'n ddiogel, ac mewn llawer o achosion, ailymgysylltu'n llwyddiannus ag addysg.

Ers yr arolygiad blaenorol, mae'r ysgol wedi gwneud gwelliannau pwysig. Erbyn hyn, mae arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn fwy effeithiol ac wedi cryfhau trefniadau ar gyfer asesu, cynllunio a sicrhau ansawdd. Mae'r cwricwlwm wedi cael ei ddatblygu ymhellach, hefyd, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, addysg cydberthynas a rhywioldeb a gyrfaoedd.

Mae disgyblion yn ymateb yn dda i addysgu, ar y cyfan. Mae staff yn defnyddio canmoliaeth a holi yn effeithiol a chaiff y rhan fwyaf o wersi eu cynllunio'n addas i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw ansawdd yr addysgu yn ddigon cyson ar draws yr ysgol eto. Mewn ychydig o wersi, ni chaiff gweithgareddau eu gweddu'n ddigon agos i anghenion a galluoedd disgyblion, ac nid ydynt bob amser yn adeiladu'n gadarn ar yr hyn y mae disgyblion eisoes yn ei wybod ac yn gallu ei wneud.

Caiff darllen ei hyrwyddo'n arbennig o dda mewn gwersi Saesneg, lle mae disgyblion yn elwa ar fodelu a chyfleoedd cryf i ddatblygu geirfa ac amgyffrediad. Ar draws yr ysgol, mae arweinwyr a staff yn cynnal ffocws addas ar lythrennedd. Fodd bynnag, nid yw ymagweddau at ddatblygu medrau darllen yn ehangach wedi ymwreiddio'n llawn eto, ac mae diwylliant darllen ehangach yr ysgol yn datblygu o hyd.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau diogelu cadarn, gan gynnwys trefniadau clir ar gyfer cofnodi a mynd i'r afael â phryderon. Mae arweinwyr yn ymateb yn brydlon os bydd pryderon yn codi, ac mae staff yn elwa ar ystod eang o hyfforddiant diogelu.

Mae presenoldeb wedi gwella dros gyfnod ac mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd cyfoethogi, cymunedol a magu annibyniaeth. Mae'r perchnogion yn parhau i fuddsoddi yn yr ysgol ac wedi gwella'r amgylchedd i gefnogi dysgu a lles disgyblion yn well.

Prif werthusiad

Mae Ysgol y Rhos yn darparu amgylchedd digynnwrf a chefnogol lle mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn ganolog i'w gwaith. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn deall yr amgylchiadau, yr anghenion a'r profiadau unigol sy'n gallu effeithio ar eu hymgysylltiad â dysgu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn sensitif i helpu disgyblion i deimlo'n ddiogel, datblygu hyder a chymryd rhan ym mywyd yr ysgol yn llwyddiannus.

Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

Ers yr arolygiad craidd diwethaf, pan ganfuwyd nad yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024, mae'r ysgol wedi cwblhau cyfnod o weithgarwch dilynol yn llwyddiannus ac wedi gwneud gwelliannau sylweddol.

Mae'r tîm arwain presennol wedi parhau i adeiladu ar y gwaith hwn. Erbyn hyn, mae arweinwyr yn defnyddio ystod ehangach o wybodaeth yn fwy systematig i ddeall cynnydd disgyblion. Mae systemau asesu ac olrhain yn rhoi pwyslais cliriach ar gynnydd dros gyfnod, tra bod sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant yn canolbwyntio'n gynyddol ar safonau a chynnydd disgyblion. Mae arweinwyr hefyd wedi gwella systemau ar gyfer rhannu gwybodaeth am anghenion disgyblion, gan alluogi staff i gynllunio'n fwy effeithiol a darparu cymorth mwy cyson. Maent wedi parhau i ddatblygu'r cwricwlwm, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, addysg cydberthynas a rhywioldeb a gyrfaoedd. Mae'r datblygiadau hyn yn dylanwadu'n gynyddol ar ddarpariaeth ac arfer ystafell ddosbarth, er nad yw rhai systemau newyddach yn ddigon sefydledig eto i ddangos eu heffaith.

Addysgu a dysgu

Mae gan bron bob un o'r staff ddealltwriaeth fanwl o anghenion dysgu a diddordebau disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda ac yn dangos agweddau

cadarnhaol iawn at ddysgu. Mae llawer ohonynt yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn awyddus i rannu eu cyflawniadau.

Mae staff yn defnyddio canmoliaeth yn effeithiol i annog disgyblion, atgyfnerthu disgwyliadau a'u cynorthwyo i ddyfalbarhau pan maent yn gweld dysgu yn anodd. Mae bron pob un o'r athrawon a'r staff cymorth yn defnyddio holi yn dda i helpu disgyblion i alw dysgu blaenorol i gof a datblygu eu dealltwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion dysgu disgyblion, ac yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau dysgu yn gweddu'n dda i alluoedd disgyblion ac yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu medrau llythrennedd, meddwl a chreadigol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o wersi, nid yw athrawon yn canolbwyntio'n ddigonol ar sicrhau gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol disgyblion cyn symud ymlaen i wneud gwaith mwy heriol. O ganlyniad, o bryd i'w gilydd, gallai disgyblion ddysgu sut i gwblhau tasg heb ddeall y cysyniadau na'r rhesymau sylfaenol am yr hyn y maent yn ei wneud. Yn ychwanegol, mewn ychydig o wersi, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn annibynnol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau dysgu a chyfoethogi oddi ar y safle sy'n ehangu profiadau disgyblion yn briodol. Caiff disgyblion hŷn gyfleoedd i ddatblygu arweinyddiaeth ac annibyniaeth trwy Wobr Dug Caeredin a gwirfoddoli yn y gymuned leol.

Ffocws ar ddarllen

Mae addysgu yn hyrwyddo darllen yn effeithiol fel proses i greu ystyr. Mewn gwersi Saesneg, mae addysgu yn integreiddio siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn fedrus trwy brofiadau dysgu cynlluniedig, amlsynhwyraidd. Mae modelu darllen mynegiannol yn effeithiol iawn yn helpu disgyblion i ddehongli iaith ac ystyr â hyder cynyddol. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu eu geirfa, eu hamgyffrediad a'u dealltwriaeth o iaith drosiadol yn dda ac yn defnyddio'r nodweddion hyn yn llwyddiannus yn eu hysgrifennu eu hunain.

Ar draws yr ysgol yn ehangach, mae arweinwyr a staff yn cynnal ffocws addas ar lythrennedd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygiad llythrennedd ehangach nag ar addysgu medrau darllen yn eglur. Mae'r ysgol wedi dechrau cryfhau darpariaeth ddarllen yr ysgol trwy fenter darllen er pleser. Mae'r llyfrgell yn cynnwys cyflenwad da o ystod briodol o destunau difyr, sy'n briodol i oedran, ac mae staff wrthi'n casglu barn disgyblion ar y llyfrau yr hoffent eu darllen. Mae'r datblygiadau hyn yn dechrau cryfhau'r diwylliant darllen ehangach.

Lles a diogelu

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau diogelu cadarn ar waith, gan gynnwys trefniadau clir ar gyfer cofnodi a mynd i'r afael â phryderon. Mae staff yn codi pryderon yn briodol ac mae arweinwyr yn ymateb yn brydlon, gan gynnwys trwy gysylltu ag asiantaethau allanol, lle mae angen, i helpu cadw disgyblion yn ddiogel. Mae staff yn elwa ar ystod eang o hyfforddiant diogelu, gan gynnwys hyfforddiant sy'n gysylltiedig â cham-drin plant yn rhywiol, cam-drin domestig a chamfanteisio troseddol ar blant. Mae arweinwyr yn deall eu cyfrifoldebau diogelu yn dda ac yn rhoi gweithdrefnau diogelu ar waith yn briodol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol. Mae gan staff ddisgwyliadau clir o ddisgyblion. Maent yn defnyddio arferion cyson, perthnasoedd cadarnhaol a dulliau unigol i helpu disgyblion i reoli eu hymddygiad ac ymgysylltu â dysgu. Mae ymddygiad cadarnhaol yn gorbwyso digwyddiadau negyddol yn sylweddol, ac mae disgyblion yn dangos rhinweddau fel annibyniaeth, gwydnwch ac ymgysylltu yn gynyddol. Mae arweinwyr yn dadansoddi gwybodaeth am ymddygiad yn ofalus i nodi patrymau, ac yn darparu cymorth targedig, lle mae angen.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae presenoldeb yn Ysgol y Rhos wedi gwella'n gyson. Er nad yw ychydig o ddisgyblion yn mynychu'n ddigon rheolaidd, mae absenoldeb anawdurdodedig yn isel iawn. I lawer o ddisgyblion, mae presenoldeb gwell yn cynrychioli cynnydd sylweddol o'u mannau cychwyn ar ôl tarfu sylweddol ar eu haddysg cyn iddynt ymuno â'r ysgol. Mae arweinwyr yn deall yr amgylchiadau cymhleth sy'n gallu effeithio ar bresenoldeb ac yn ymateb yn sensitif.

Arweinyddiaeth

Mae arweinwyr yn defnyddio gweithgareddau sicrhau ansawdd yn gynyddol dda i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella a dilynir y rhain â chamau gweithredu priodol. Mae hyn wedi cyfrannu at welliannau mewn asesu, modelu ac yn annibyniaeth disgyblion. Fodd bynnag, nid yw effaith rhai dulliau newyddach yn gyson ar draws pob pwnc eto.

Mae'r perchnogion yn dangos ymrwymiad cryf i'r ysgol, yn ymfalchïo'n sylweddol yn ei datblygiad parhaus ac yn uchelgeisiol ar gyfer ei dyfodol. Maent wedi buddsoddi'n bwrpasol mewn gwella amgylchedd yr ysgol i ddiwallu anghenion dysgu a lles disgyblion yn well. Caiff y safle ei gynnal yn dda ac mae'n darparu ystod addas o fannau, gan gynnwys ardaloedd cymunol ychwanegol, darpariaeth gynradd ar wahân ac ardaloedd diogel yn yr awyr agored. Mae'r datblygiadau hyn yn helpu disgyblion i ddod at ei gilydd yn fwy rheolaidd ac yn galluogi'r ysgol i ymateb yn effeithiol i wahanol anghenion disgyblion. Mae'r perchnogion yn darparu goruchwyliaeth gefnogol ac yn cynnal ffocws clir ar sichrau'r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer disgyblion.

Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

Darparu gwybodaeth

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

Argymhellion newydd

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Gwella cysondeb yr addysgu fel bod dysgu yn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn diwallu eu hanghenion

A2 Ymgorffori ymagwedd ysgol gyfan at ddatblygu medrau darllen disgyblion a meithrin diwylliant darllen

Diogelu

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Hefyd, byddai'n ddoeth dosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu'r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/11/2026